Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Ymateb i Ymgynghoriad / Consultation Response



| | |
|---|---|
| **Enw / Name:** | Meilyr Rowlands |
| **Rôl / Role:** | Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru |
| **E-bost / Email:** | ChiefInspector@estyn.gov.uk |
| **Rhif Ffôn / Tel No:** | 02920 446 446 |
| | |
| **Dyddiad / Date:** | 13 Chwefror 2020 |
| **Pwnc / Subject:** | Gorfodaeth i roi gwybod am ganlyniadau Profion Darllen a Rhifedd Cenedlaethol ar-lein |



**Gwybodaeth gefndir am Estyn**

Estyn yw Swyddfa Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru. Fel corff y Goron, mae Estyn yn annibynnol ar Lywodraeth Cymru.

Prif nod Estyn yw codi safonau a gwella ansawdd addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Caiff hyn ei nodi yn Neddf Dysgu a Sgiliau 2000 a Deddf Addysg 2005 yn bennaf. Wrth gyflawni ei swyddogaethau, mae'n rhaid i Estyn ystyried:

- Ansawdd addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Y graddau y mae addysg a hyfforddiant yn bodloni anghenion dysgwyr;
- Y safonau addysgol a gyflawnir gan ddarparwyr addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Ansawdd arweinyddiaeth a rheolaeth y darparwyr addysg a hyfforddiant hynny;
- Datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol dysgwyr; a'r
- Cyfraniad a wneir at les dysgwyr.

Mae cylch gwaith Estyn yn cynnwys (ond nid yn unig) meithrinfeydd a lleoliadau nas cynhelir, ysgolion cynradd, ysgolion uwchradd, ysgolion annibynnol, unedau cyfeirio disgyblion, addysg bellach, dysgu oedolion yn y gymuned, gwasanaethau addysg llywodraeth leol, dysgu yn y gwaith, ac addysg a hyfforddiant athrawon.

Gall Estyn roi cyngor i'r Cynulliad ar unrhyw fater sy'n gysylltiedig ag addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Er mwyn cyflawni rhagoriaeth i ddysgwyr, mae Estyn wedi pennu tri amcan strategol:

- Darparu atebolrwydd i ddefnyddwyr gwasanaeth ar ansawdd a safonau addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Llywio datblygiad polisi cenedlaethol gan Lywodraeth Cymru;
- Meithrin gallu i wella'r system addysg a hyfforddiant yng Nghymru.

Nid yw'r ymateb hwn yn gyfrinachol.

**Gorfodaeth i roi gwybod am ganlyniadau Profion Darllen a Rhifedd Cenedlaethol ar-lein**

Mae canllawiau Llywodraeth Cymru yn nodi pwrpas y profion cenedlaethol yn glir:

> *'Mae'r Profion Cenedlaethol at ddefnydd ffurfiannol, er mwyn i athrawon ym mhob ysgol a gynhelir gael gwybodaeth am sgiliau darllen a rhifedd eu dysgwyr, a dealltwriaeth gyffredin o gryfderau a meysydd i'w gwella o safbwynt y sgiliau hynny[1].'*

Â'r arweiniad ymlaen i nodi bod yr asesiadau hyn:

> *'yn canolbwyntio ar ddeall cynnydd dysgwyr, yn hytrach na pherfformiad neu atebolrwydd yr ysgol[2].'*

Mae'n pwysleisio'r pwynt hwn ymhellach:

> *'Diben y Profion Cenedlaethol (papur ac ar-lein) yw bod yn ffurfiannol, gan alluogi athrawon i asesu sut mae sgiliau darllen a rhifedd dysgwyr yn datblygu a defnyddio'r asesiad hwnnw i lywio gweithgarwch addysgu[3].'*

Mae Estyn yn cydnabod pwysigrwydd asesu ffurfiannol effeithiol fel rhan o system asesu gyfannol ac mae'n cefnogi'r pwyntiau uchod. Rydym yn cydnabod mai ffocws yr asesiadau personol yw helpu dysgwyr i wneud cynnydd, gan helpu athrawon i ddeall beth gall disgyblion ei wneud, beth mae angen i ddisgyblion weithio arno a'u camau dysgu nesaf.

Mae'r system ar-lein ar gyfer asesiadau personol yn cyflenwi'r wybodaeth hon yn uniongyrchol i ysgolion fel y gall arweinwyr ac athrawon ei defnyddio i ategu dysgu ac addysgu. Mae hyn yn digwydd yn awtomatig, felly nid oes angen i rywun drosglwyddo data i'r awdurdod lleol.

Felly, cytunwn â chynnig Llywodraeth Cymru i ddileu'r gofyniad i gyrff llywodraethu anfon canlyniadau'r asesiadau cenedlaethol ar-lein i'w hawdurdod lleol.

Yn ogystal, rhybuddiodd adroddiad Dyfodol Llwyddiannus, *'os bydd prosesau atebolrwydd yn cael y lle blaenaf wrth asesu, fel y gwelir weithiau, gall hynny niweidio'r dysgu gan blant a phobl ifanc[4].* At hynny, mae adroddiad gan yr OECD ar werthuso ac asesu hefyd yn rhybuddio *'…high-stakes uses of evaluation and assessment results might lead to distortions in the education process…'[5]*

Felly, cefnogom gamau Llywodraeth Cymru i ailsefydlu pwrpas asesu a'i ddatgysylltu rhag atebolrwydd sydd â llawer yn y fantol, trwy roi'r gorau i gyhoeddi data asesiadau athrawon a data profion cenedlaethol ar lefel ysgol ac awdurdod lleol fel mater o drefn. Byddai dileu'r gofyniad i roi gwybod am ganlyniadau profion yn gam pellach yn y datgysylltu hwn. Gallai'r gofyniad i anfon gwybodaeth am brofion cenedlaethol i awdurdodau lleol annog y cyrff hyn i ystyried bod canlyniadau'r asesiadau yn ffordd o graffu ar ysgolion, neu beri bod arweinwyr ysgolion yn amgyffred bod canlyniadau'r asesiadau yn cyfrannu at ddull o fesur atebolrwydd, ac felly dylid ei osgoi. Yn ôl tystiolaeth arolygu, lle'r oedd consortia lleol yn arfer creu tablau meincnodi o ddata profion cenedlaethol, roedd ysgolion yn canolbwyntio'n ormodol ar ba mor dda roedd disgyblion yn 'sgorio', ac roedd hyn yn lleihau eu ffocws ar natur ffurfiannol y wybodaeth sy'n deillio o'r profion.

---

[1] Profion Darllen a Rhifedd Cenedlaethol – Llawlyfr gweinyddu profion 2019/20. Dogfen ganllawiau: rhif: 253/2019: Hydref 2019

[2] Profion Darllen a Rhifedd Cenedlaethol – Llawlyfr gweinyddu profion 2019/20. Dogfen ganllawiau: rhif: 253/2019: Hydref 2019

[3] Profion Darllen a Rhifedd Cenedlaethol – Llawlyfr gweinyddu profion 2019/20. Dogfen ganllawiau: rhif: 253/2019: Hydref 2019

[4] Dyfodol Llwyddiannus. Adolygiad Annibynnol o'r Cwricwlwm a'r Trefniadau Asesu yng Nghymru. Chwefror 2015

[5] OECD (2013) Synergies for Better Learning: An International Perspective on Evaluation and Assessment